**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

# Datganiad Ysgrifenendig

Teitl: Diweddariad ar weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Lobïo.

Dyddiad: 27 Tachwedd 2019

Gan: Elin Jones AC, Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad ynghylch lobïo.

Mae gwaith wedi cael ei wneud yn y cyfamser i ymateb i'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad ac mae Comisiwn y Cynulliad bellach yn dymuno rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt y broses weithredu.

O ran pasys diogelwch yn cael ei diffodd ar ddiwrnod olaf cyflogaeth staff y Cynulliad Cenedlaethol, roedd yr arfer hwn eisoes ar waith pan wnaeth y Pwyllgor ei argymhelliad, felly nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Yn ogystal ag ystyriaethau diogelwch arferol, diben yr arfer hwn yw gwarchod yr ystâd a sicrhau nad oes gan unrhyw lobïwr bas i ddod i mewn i'r Cynulliad Cenedlaethol, felly'n cefnogi'r egwyddor bod y sefydliad yn caniatáu mynediad teg a chyfartal i bawb.

Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda grŵp o Aelodau'r Cynulliad i ddatblygu cynllun peilot o ddatgelu cyfarfodydd Aelodau'r Cynulliad â lobïwyr a grwpiau buddiant yn wirfoddol, gan gynnal gwerthusiad yn 2020.  Mae swyddogion wedi ymgymryd â gwaith paratoadol o ran pa ffurf y dylid creu'r peilot gan aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

O ran argymhelliad y Pwyllgor ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau a noddir gan Aelodau’r Cynulliad sy’n cael eu cynnal ar ystâd y Cynulliad, gyda'r bwriad o wella tryloywder, caiff calendr y Cynulliad ei gyhoeddi ar y wefan ac mae eisoes yn dangos manylion y Cyfarfod Llawn, cyfarfodydd pwyllgorau a busnes swyddogol arall y Cynulliad. Mae hefyd yn dangos gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y Senedd neu'r Pierhead, a digwyddiadau'r Cynulliad sy'n cael eu cynnal ledled Cymru.

Yn dilyn toriad y Pasg yn 2018, dechreuodd staff y Comisiwn gyhoeddi ar galendr y Cynulliad yr holl weithgareddau newydd a noddir gan Aelodau sy’n cael eu trefnu gyda gwesteion allanol mewn lleoliadau eraill y gellir eu bwcio ar yr ystâd. Fodd bynnag, gwelodd staff fod yr yr Aelodau’n gyndyn o orfod rhyddhau'r wybodaeth ychwanegol.

Rhoddwyd enghreifftiau o ddangos cyfarfod preifat, anffurfiol rhwng Aelodau’r Cynulliad a rhanddeiliaid ar galendr y Cynulliad. O ganlyniad, gofynnwyd i swyddogion y Comisiwn dynnu'r cyfarfodydd i lawr o'r calendr.

Mae swyddogion yn gweithio gyda staff cymorth yr Aelodau ar opsiwn a fydd yn fwy derbyniol i'r Aelodau.

Mae argymhelliad olaf y Pwyllgor Safonau’n ymwneud â mapio’r ffyrdd o ddylanwadu er mwyn datblygu sail dystiolaeth ystyrlon ac ystyried ffyrdd eraill ac, o bosib, fwy effeithiol o wella tryloywder yn hytrach na chofrestr statudol.

Mae pob pwyllgor yn rhydd i geisio'r wybodaeth y mae'n teimlo sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'i ymchwiliadau. Mater i'r Pwyllgor fyddai gwneud hyn. Mae'r Comisiwn yn darparu cyllideb i alluogi pwyllgorau i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gan staff y Comisiwn a mynediad at arbenigedd allanol os oes angen hynny.

Bydd y Comisiwn yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor Safonau a'r holl Aelodau i greu diwylliant sy'n taro cydbwysedd effeithiol rhwng mynediad ac atebolrwydd.